



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

FFÔN: 116 000 TESTUN: 116 000
EBOST:116000@missingpeople.org.uk

Mae **Missing People** yn darparu cyngor a chymorth am ddim 24/7, i deuluoedd sydd â pherthynas ar goll. Byddwn yno, ddydd a nos ar eu cyfer, yn ôl y gofyn. Dylai'r **Heddlu** ddweud wrth bob teulu sut i gael gafael arnom i gael y cymorth a restrir isod.

Pwy yw Missing People?

Mae gan yr elusen Missing People 20 mlynedd o brofiad llinell flaen ac maen nhw'n cynnig cymorth, cyngor a help ymarferol i unrhyw un sydd wedi rhedeg i ffwrdd, mynd ar goll neu wedi cael ei orfodi i adael cartref. Rydyn ni yma ar gyfer teuluoedd y bobl sydd ar goll, pa beth bynnag y maen nhw'n mynd drwyddo, pa bryd bynnag y mae angen ein help ni arnyn nhw, a chyhyd ag y mae eu hanwyliaid ar goll. Mae Missing People hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'r Heddlu sy'n delio ag ymchwiliadau i bobl sydd ar goll.

Gwasnaethau Missing People:

Cymorth i'r teulu:

Mae Missing People yn cynnig cefnogaeth, cyngor a chymorth ymarferol i aelodau o'r teulu pan fydd un o'u hanwyliaid wedi mynd ar goll. Gallwn hefyd helpu os ydynt wedi colli cysylltiad ag aelod o'r teulu.

Gall teuluoedd gael cymorth emosiynol, cyngor a chanllawiau ymarferol, yn ogystal â mynediad at amrywiaeth gyflawn o wasanaethau Missing People cyhyd ag y mae eu hangen arnynt, gan gynnwys: Cymorth i'r Teulu 24 Awr a'r opsiwn i gael eich cyfeirio at Gwnsela.

Cymorth i Berson sydd Ar Goll:

Os oes creisis yn wynebu'r person sydd ar goll neu os yw'n ansicr o ran beth i'w wneud, mae tîm arbenigol Missing People yma i wrando a rhoi cymorth iddo. Gallwn ei helpu i siarad dros bethau a throsglwyddo neges adref.

Ni fydd yr elusen yn ceisio olrhain galwadau, negeseuon testun nac ebyst y person sydd ar goll. Rydyn ni yma i gydweithio ag e, esbonio'i ddewisiadau iddo a cheisio rhoi'r help sydd ei angen arno. Ein blaenoriaeth yw ei ddiogelwch a'i les.

Cyhoeddusrwydd:

Gallwn deilwra pecyn cyhoeddusrwydd i weddu anghenion archwilio'r heddlu, gan dargedu cyhoeddusrwydd lleol neu genedlaethol sy'n estyn allan i'r cyhoedd am wybodaeth ac i'r person sydd ar goll i ddod i gysylltiad.

Dylai cyhoeddusrwydd am berson sydd ar goll gyrraedd dwy 'gynulleidfa' allweddol: y cyhoedd, a allai wybod rhywbeth am y person sydd ar goll neu ymhle y mae; a'r person sydd ar goll, a allai ei weld a chysylltu â *rhywun* o ganlyniad. Yn y naill senario a'r llall, mae'n bwysig fod y person yn gwybod fod dewis ganddo os yw cysylltu â'r heddlu'n hynod anodd iddo. Mae'r rhif 116000 yn darparu'r union gyfle hwn.

TextSafe®:

Ar ofyniad yr heddlu, gellir anfon neges destun o gymorth i ffôn person sydd ar goll. Mae hyn yn gadael i'r plentyn neu'r oedolyn sydd ar goll wybod sut i gael gafael ar gymorth cyfrinachol am ddim drwy ffonio, tecstio ac e-bostio 24 awr y dydd.

Caiff y neges destun ei hanfon oddi wrth Missing People yn hytrach nag oddi wrth yr heddlu. Felly, mae gan y rheini sydd efallai'n petruso cyn ffonio'r heddlu fynediad at gymorth oddi wrth elusen 'niwtral' a chyfrinachol. O ganlyniad i gysylltu â Missing People, mae'n bosibl y byddai'r person sydd ar goll yna'n penderfynu dechrau cysylltu â'r heddlu, ei deulu neu'r gwasanaethau cymdeithasol.